# HOWELLS, THOMAS ('Hywel Cynon '; 1839 - 1905), glowr, argraffydd, cerddor, bardd, a phregethwr

**Enw:** Thomas Howells
**Ffugenw:** Hywel Cynon
**Dyddiad geni:** 1839
**Dyddiad marw:** 1905
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** glowr, argraffydd, cerddor, bardd, a phregethwr
**Maes gweithgaredd:** Diwydiant a Busnes; Crefydd; Cerddoriaeth; Perfformio; Barddoniaeth; Argraffu a Chyhoeddi
**Awdur:** Robert David Griffith

Ganwyd yng Nglyn-Nedd, Morgannwg, 12 Hydref 1839. Symudodd y teulu i Rhymni i fyw, a dechreuodd y bachgen weithio yn y lofa yn 7 oed; symudwyd wedyn i Aberaman lle yr oedd gwell manteision addysg, a dechreuodd y mab fynychu ysgol nos a gedwid gan y gweinidog, John Davies. Yn 1858 daeth ' Ieuan Gwyllt ' i Aberdâr, a daeth ' Hywel Cynon ' o dan ei ddylanwad ef a cherddorion eraill a drigai yn y dref. Yn 1866 prynodd beiriannau argraffu ' Tavalaw,' a dilynodd y grefft o argraffu hyd ei farwolaeth. Yr oedd yn bregethwr cynorthwyol yn Saron (A.), Aberaman, a phregethai yn fynych oddi cartref. Cyhoeddodd ddau lyfr o farddoniaeth, *Awelon yr Haf*, a *Cerddi Hywel Cynon*. Cyfansoddodd amryw ddarnau cerddorol a fu'n boblogaidd yn ei gyfnod, e.e. ' Gwnewch bopeth yn Gymraeg,' a cheir tôn ganddo yn *Llyfr Tonau* Stephen a Jones. Dug allan yn 1871 *Gêirlyfr Cerddorol* a fu o wasanaeth mawr i gerddorion. Gwasnaethodd fel beirniad ac arweinydd cymanfaoedd, a chymerai ran fel datganwr yng nghyngherddau côr undebol Aberdâr. Bu farw 15 Hydref 1905 a chladdwyd ym mynwent gyhoeddus Aberdâr.

## Awdur

**Robert David Griffith**, (1877 - 1958)

## Ffynonellau

*Y Cerddor*, Rhagfyr 1905

Edward Jones, *Rhestr gyda nodiadau byrion, o Enwogion Cymreig o 1700 i 1900* (1908)

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20738162

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu